



Croeso i Ddosbarth Cestyll Tywod.



Athrawes ddosbarth:

Miss Lowri Jones

Cynorthwywraig dosbarth:

Mrs Eleri Gill

Dyma dudalen ddosbarth blwyddyn 4. Eleni, mae yna 25 o blant brwdfrydig yn ein dosbarth. Darllenwch ymlaen i gael cipolwg o'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth.

Y tymor hwn bydd Dosbarth Cestyll Tywod yn astudio'r thema 'Cymru' ar draws y 6 maes dysgu a phrofiad. Mae'n gyfle gwych iddynt ddysgu am y gwlad lle maent yn byw ac i fod yn browd o'u haddysg Gymraeg.

Trwy gydol flwyddyn 4 mi fydd eich plant yn cael digonedd o gyfleoedd i dyfu'n unigolion iach ac hyderus, dinasyddion egwyddorol gwybodus, yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog a chyfranwyr mentrus a chreadigol.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu



Yn ystod y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar gael eich plant yn siarad ac yn ysgrifennu'n ddisgrifiadol, annibynnol ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yn drawsgricwlaidd.

Gwnewch ddefnydd cyson o 'SpellBlast' ar Hwb. Bydd geiriau sillafu wythnosol yn cael eu hychwanegu iddo, geiriau thematig a chamsillafau cyffredin.

Rhifedd



Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod y flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drawsgricwlaidd. Gwnewch ddefnydd cyson o J2blast ar HWB i ddal ati gyda'r tablau hollbwysig!

Llyfrau darllen



Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos a bydd eich plant yn darllen yn gyson felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd. Gall y disgyblion newid eu llyfrau pan fyddant wedi eu cwblhau ac yn dangos eu bod yn deall yr hyn maent wedi darllen.

Ymarfer Corff



Mae sesiynau ymarfer corff yn cael eu cynnal ar brynhawn Dydd Iau. Disgwylir i'r disgyblion newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. Cit Ymarfer Corff: Crys t (Lliw eu tŷ) siorts/trowser tywyll ac esgidiau ymarfer corff.

*Noder – Yn ystod y cyfnod Covid-19 mae angen i bob plentyn wisgo'u gwisg addysg gorfforol i'r ysgol ar Ddydd Iau. Ni fydd yr ystafelloedd newid ar agor.

Gwener Gwych



Ar bob brynhawn Dydd Gwener bydd gweithgareddau allanol yn cael eu cynnal. Bydd angen hen ddillad ac esgidiau glaw ar eich plant.

Tasgau Dysgu Adref



Bydd tasgau dysgu adref yn cael eu gosod ar Ddydd Gwener. Disgwylir i ddisgyblion eu cwblhau erbyn Dydd Mercher i roi amser iddynt gael eu marcio cyn yr wythnos nesaf. Gallwch ddod o hyd i'r tasgau dysgu adref ar ffurf dewislen ar Hwb.

